



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y **Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion**

Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams

Dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2022 am 4.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

C A Holley
E T Kirchner

Y Cyngorydd(wyr)

P R Hood-Williams
H M Morris

Y Cyngorydd(wyr)

J W Jones
C L Philpott

Aelodau

Cyfetholedig(wyr)

T Beddow

Hefyd yn bresennol

Louise Gibbard

Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal

Swyddog(ion)

Richard Davies
Amy Hawkins
David Howes
Liz Jordan
Helen St John

Rheolwr Strategol y Tîm Byw'n Annibynnol
Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchgu Tlodi
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddog Craffu
Pennaeth y Gwasanaethau Integredig

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wy): Y V Jardine a/ac A J Jeffery

1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganwyd buddiant gan Chris Holley.

2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y Panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Dan Materion yn Codi, cododd y Panel ymholiad mewn perthynas â chwestiwn cyhoeddus ynghylch anableddau dysgu. Gofynnodd yr Aelodau faint o bobl yn Abertawe sydd yn yr un sefyllfa â'r person a grybwyllwyd yn y cwestiwn cyhoeddus, a'r mathau o lety y gallai pobl â'r anghenion hynny fynd iddynt. Roedd swyddogion yn meddwl bod 52 unigolyn yn fras yn Abertawe sydd yn yr un sefyllfa ond bydd yn cadarnhau ar ôl y cyfarfod. O ran y mathau o lety, dywedodd swyddogion fod cymysgedd cyfan o opsiynau tai, boed y rheini'n unedau unigol lle caiff pobl eu cefnogi neu'n unedau byw â chymorth. Teimlai'r Panel y byddai'n ddefnyddiol gwybod yr hyn y mae'r awdurdod wedi gallu'i wneud ar gyfer yr unigolion hyn a'r ystod o anghenion ar sail unigol neu gyfunol.

Camau Gweithredu:

- Bydd y Panel yn cael cadarnhad ynghylch nifer yr unigolion ag anableddau dysgu yn Abertawe sydd yn yr un sefyllfa, gwybodaeth am yr hyn y mae'r awdurdod wedi gallu'i wneud iddynt a'r ystod o anghenion.

4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5 Camau gweithredu yn dilyn Adroddiad SAC (Ebrill 2022) - Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Gofal ynghyd â swyddogion perthnasol, yn bresennol i friffio'r Panel ar ymateb yr awdurdod i argymhellion cyhoeddus SAC yn dilyn eu hadolygiad o daliadau uniongyrchol ar draws y gwasanaethau i oedolion yng Nghymru ym mis Ebrill 2022.

Pwyntiau Trafod:

- Roedd y Panel yn falch o glywed, o'r 10 argymhelliad, fod y cyngor yn bodloni'i ofynion ac yn rhagori arnynt mewn rhai meysydd.
- Mewn perthynas ag argymhelliad 1, gofynnodd y Panel i weld y daflen Gofalwyr ac Ymarferwyr a ddatblygwyd. Cytunwyd y caiff hon ei chylchredeg i'r Panel unwaith ei bod yn barod i'w chyhoeddi.
- Holodd y Panel ynghylch pwy sy'n gwirio a yw'r daflen yn hawdd ei darllen. Cadarnhawyd mai aelodau o'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol sy'n darparu arsylwadau ac adborth ar yr holl gyfathrebiadau.
- Mewn perthynas ag argymhelliad 2, gofynnodd y Panel a oes gan y tîm gofal ehangach yr wybodaeth ddiweddaraf am daliadau uniongyrchol ac a ydynt yn deall sut y gellir eu defnyddio. Clywyd, o ran ymarferwyr, fod y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn mynd yn rheolaidd i sesiynau gwybodaeth etc. ond mae'n broses araf. Mae'r tîm TU yn cynhyrchu rhywfaint o ddata ansoddol ond mae hefyd yn gobeithio cynyddu ei ddata ansoddol h.y. adrodd straeon pobl. Roedd y Panel yn awyddus i weld y data ansoddol hwn.
- Holodd y Panel a oedd Cydlynwyr Ardaloedd Lleol yn rhan o hyn. Clywyd bod y tîm TU yn gweithio'n agos iawn gyda'r tîm CALI yn enwedig wrth nodi cynorthwyr personol a phobl y mae angen cefnogaeth arnynt o fewn yr ardal.
- Mewn perthynas ag argymhelliad 9, gofynnodd y Panel a oes gan y Gwasanaeth ddarlun o'r categorïau o'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaethau

TU. Hysbyswyd y Panel fod lefel uwch o wybodaeth am hyn yn yr Adroddiad Monitro Perfformiad a gellir dadansoddi hwn ymhellach os yw'r Panel yn dymuno hynny.

- Holodd y Panel sut mae'r Gwasanaeth yn nodi popeth y defnyddir taliadau uniongyrchol ar eu cyfer, gan ei fod yn ymddangos yn hynod hyblyg. Ymatebodd Aelod y Cabinet mai dyma lle y gellir defnyddio data ansoddol h.y. straeon personol, ac y byddai'n ddefnyddiol iawn i bobl rannu'r hyn y maent yn defnyddio taliadau uniongyrchol ar eu cyfer.

Camau Gweithredu:

- Caiff y daflen ei chylchredeg i'r Panel pan fydd yn barod i'w chyhoeddi.
- Bydd straeon personol am sut y defnyddir TU yn cael eu rhannu â'r Panel os a phryd y byddant ar gael.
- Caiff gwybodaeth yn yr adroddiad monitro perfformiad am categorïau o ddefnyddwyr gwasanaethau TU ei mireinio a'i rhannu â'r Panel.

6 Sesiwn Frifffio ar Adroddiadau Arolygu Diweddar AGC

Briffiwyd y Panel ar yr eitem hon ac atebwyd eu cwestiynau gan Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Gofal a Phenaethiaid Gwasanaeth y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Cymunedol Integredig.

Pwyntiau Trafod:

- Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at 4 arolygiad nas trefnwyd ac 1 adolygiad a drefnwyd. Cynhaliwyd pob arolygiad yn ystod COVID.
- Canfu Arolygiaeth Gofal Cymru nad oedd unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â rheoliadau ac ni roddwyd hysbysiadau o gamau gweithredu sy'n flaenoriaeth. Nodwyd 11 o feysydd i'w gwella ar draws y gwasanaethau gwahanol ac mae gan y Gwasanaeth gynllun gweithredu i weithio tuag at y meysydd i'w gwella.
- Holodd y Panel a oedd AGC yn glir ynghylch y fframwaith dadansoddol sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer yr arolygiad i gymharu un rhan o sefydliad ag un arall ac un awdurdod lleol ag un arall, oherwydd prin oedd y cyfeiriad yn yr adroddiad at fewnbynnau, prosesau neu allbynnau. Dywedodd swyddogion na allent wneud sylw dros AGC ond arolygwyd yr awdurdod yn yr un fframwaith ag ym mhobman arall ac arolygwyd 4 maes o'i gymharu â'r rheoliadau.
- Nododd y Panel nad oedd unrhyw ddeialog yn yr adroddiad gan AGC i ddangos y ffactorau allanol lleihaol a oedd ar waith neu'r rhai yr oedd yr awdurdod yn adfer ohonynt yn ystod yr arolygiadau. Clywodd y Panel fod yr awdurdod wedi cael ei arolygu yn yr un ffordd â phob awdurdod arall ledled Cymru, a gweithiodd pob un ohonynt drwy'r pandemig. Fodd bynnag, cafwyd llawer o gydnabyddiaeth yn y sesiwn frifffio llafar gan AGC.
- Roedd y Panel yn bryderus am y pwynt a godwyd gan AGC ynghylch meddyginiaeth ac roeddent am gael eglurhad fod hyn wedi'i nodi a bod yr holl sefydliadau'n ymwybodol o hyn. Sicrhawyd y Panel gan swyddogion fod prosesau a dulliau monitro cadarn ar waith yn wythnosol ar draws yr holl safleoedd o ran rhoi meddyginiaeth

- Dywedodd y Panel mai'r broblem gyda llawer o arolygiadau yw mai cipolygon ydynt ar yr hyn sy'n digwydd ac mewn gwirionedd, mae angen cael nifer ohonynt er mwyn cael darlun mwy gwir ar draws un i ddwy flynedd. Mae'r Panel yn teimlo bod y materion a godwyd yn fân faterion o'u cymharu â gofal cyffredinol y bobl yr edrychwyd arnynt yn yr adroddiad hwn.

7 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22

Roedd David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol i friffio'r Panel ar yr eitem hon.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

8 Rhaglen Waith 2022-23

Trafododd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nododd y Panel fod yr eitem Diweddariad ar Raglen Trawsnewid Gorllewin Morgannwg wedi'i threfnu ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 21 Mawrth 2023, a gofynnwyd am y diffiniad o 'Ofal Cymhleth'. Cytunodd swyddogion i roi'r diffiniad i'r Panel yn dilyn y cyfarfod.

Camau Gweithredu:

- Diffiniad o 'Ofal Cymhleth' i'w ddarparu i'r Panel

Daeth y cyfarfod i ben yn 5.15 pm